ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

30/04/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Braf yw adrodd, ar ddiwedd y drydedd wythnos ers i bawb ddychwelyd i Fryn Tawe, bod ymateb ein disgyblion wedi bod yn hynod o bositif ar y cyfan. Hoffwn ddiolch i'n disgyblion am eu hymdrechion ac hefyd i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol. Mae ein pwyslais yn barhaus ar les ein disgyblion gan sicrhau eu bod yn ail ymgyfarwyddo gyda bywyd ysgol. Yn ogystal, rydym yn ffocysu ar eu cefnogi i ail gydio a gwella eu medrau ieithyddol Cymraeg, sydd mor allweddol i'w dysgu. Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth bellach a'ch anogaeth yn sicrhau bod eich plentyn yn manteisio ar bob cyfle i ymarfer a chyfoethogi eu medrau iaith Cymraeg yn ddyddiol.

Gyda thymor prysur iawn o'n blaenau, hoffwn rannu dyddiadau allweddol gyda chi:

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| **GRADDAU WEDI'U PENNU GAN Y GANOLFAN DROS DRO – BL. 11-13** | |
| **10/06/21** | Diwrnod olaf i ddisgyblion bl. 11 a 13 – seremoni ffarwelio yn y prynhawn. |
| **18/06/21** | Dosbarthu graddau i'r disgyblion – byddwn yn trefnu amser i ddisgyblion ddod i'r ysgol i gasglu eu graddau dros dro o'r Neuadd Fawr. |
| **25/06/21*** | Dyddiad olaf i ddisgyblion wneud cais i adolygu gradd. Byddwn yn rhannu gwybodaeth bellach gyda disgyblion a rhieni Bl. 11-13 am y broses apêl. |
| **02/07/21** | Graddau dros dro yn cael eu rhannu gyda CBAC. |
| **HMS** | |
| **11/06/21** | HMS – safoni a chymedroli Graddau wedi eu Pennu gan y Ganolfan |
| **30/06/21** | HMS Ymweliadau Pontio blwyddyn 6 |
| **16/07/21** | HMS |
| **NOSWEITHIAU RHIENI (rhithiol, gyda manylion ymuno i ddilyn)** | |
| **26/05/21** | Blwyddyn 9 |
| **14/06/21** | Blwyddyn 10 |
| **28/06/21** | Blwyddyn 8 |
| **05/07/21** | Blwyddyn 7 |
| **ERAILL** | |
| **14/06/21** | Dechrau amserlen interim:<br>Bl.9 yn dechrau eu cyrsiau TGAU<br>Bl.12 yn trosglwyddo i gyrsiau Safon Uwch |
| **15/07/21** | Diwrnod olaf y flwyddyn academaidd i ddisgyblion 7-10 a 12eg |

*** Dyddiad dros dro i'w gadarnhau, yn dilyn canllawiau gan Cymwysterau Cymru a CBAC am y broses apelio.**

**At sylw rieni bl. 11-13:**

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol Sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Wru School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Diolch i'r rheiny wnaeth fynychu'r webinar i gyflwyno'r broses rydym yn ei defnyddio er mwyn gallu pennu graddau. Os nad oeddech yn gallu mynychu, mae recordiad o'r cyflwyniad yma: https://youtu.be/I5PicTnM_Kw . Yn ogystal, gweler y llythyr a rannwyd gyda rhieni cyn y Pasg yma: Llythyr riant disgybl GBG.pdf (bryntawe.swansea.sch.uk) . Os oes unrhyw gwestiynau pellach gennych am y broses, yna cysylltwch gyda ni yn yr ysgol ar unrhyw adeg.

Byddwn yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda chi am rai o'r gweithgareddau uchod, ond os oes unrhyw gwestiwn pellach gennych, yna peidiwch ag oedi cyn cysylltu gyda ni yn yr ysgol.

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies